


Polisi Ymddygiad/ Behaviour Policy

Ysgol Bancyfelin, Ysgol
Llangain ac Ysgol
Llansteffan



Amcanion a Safonau

Yn Ysgol Gynradd Bancyfelin, Llangain a Llansteffan seilir disgyblaeth ar strategaeth ymddygiad sy'n annog agweddau positif tuag at ymddygiad a'i seilio ar ganmol a gwobrwyo. Mae plant yn gwneud penderfyniadau am eu hymddygiad eu hunain yn seiliedig ar reolau, gwobrwyon a chanlyniadau. Mae ymddygiad da yn hanfodol i fywyd ysgol gan ei fod yn caniatâu ac yn hyrwyddo dysgu a pherthynas ryngersonol llwyddiannus. Ni ddylai ymddygiad annerbyniol a thorri rheolau disgyblaeth amharu ar hawliau plant eraill i ddysgu a datblygu. Dylai pob aelod o staff, pob disgybl a phob rhiant fod yn ymwybodol, yn rhan ac yn gefnogol i Bolisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr Ysgol er mwyn iddo lwyddo. Mae cymorth a chefnogaeth rhieni yn angenrheidiol. Mae cyfrifoldeb gyda holl aelodau'r staff i gynnal y polisi hwn bob amser

EIN AMCANION:

1. Gwneud amgylchedd yr ysgol yn ddiddorol, bleserus, diogel a gofalgwr ar gyfer dysgu plant.
2. Darparu strwythur y mae plant, oedolion a rhieni yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt a pha strwythurau a ddarperir ar gyfer gwobrwyo ymddygiad da a delio â phroblemau ymddygiad.
3. Annog y plant i gyd i ofalu a chymryd gofal o'i gilydd gan gofio prif elfennau dilyn y seren ar eu taith drwy'r ysgol.

Gweithiwn tuag at gyflawni'r amcanion hyn drwy:

1. Ddatblygu a mabwysiadu cydfefnogaeth rhwng oedolion a phlant, plant a phlant ac oedolion ac oedolion.
2. Adeiladu hunan-barch a hunan-werth drwy ganmol a gwobrwyo ymddygiad da a datblygu agweddau positif.
3. Darparu disgyblaeth effeithiol ac gyfer dysgu effeithiol.
4. Datblygu strategaethau i hyrwyddo hunan-reolaeth a gweld canlyniadau eu gweithredoedd.
5. Darparu cymorth a chefnogaeth pan fo'r angen i unrhyw blentyn sy'n cael anhawster i reoli ei ymddygiad ei hun.
6. Ystyried unrhyw anabledau gan blant neu oedolion yn yr ysgol.

Safon yr Ymddygiad ddisgwyilir yn yr ysgol:

Disgwyilir i blant:

- ddangos parch tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr
- barchu eiddo ei gilydd a gofalu am adeilad ac offer yr ysgol
- ymddwyn yn dda a bod yn sylwgar yn y dosbarth
- gerdded (dim rhedeg) pan yn symud o gwmpas yr ysgol
- osgoi trais a dial
- atal rhag defnyddio iaith anweddus ac ymosodol

- beidio dod ag offer miniog a pheryglus, offer trydanol, gemwaith a theganau i mewn i'r ysgol

Gall gwyro oddi ar y safonau ymddygiad hyn fod yn achos disgyblu o dan y Polisi hwn.

Bwlio

Mae bwlio yn weithred ddifrifol o dorri'r Safonau Ymddygiad ac yn drosedd i'w ddisgyblu .

Mae'r ysgol yn rhoi sylw arbennig i adnabod a rhwystro bwlio yn yr ysgol, i ddelio ag ef yn effeithiol pe bai'n digwydd ac addysgu'r plant ein bod yn goddef dim. Mae gan yr ysgol felly Bolisi Gwrthfwlio ar wahan sy'n ymdrin â'r materion.

Ymddygiad tu allan i gyd-destun yr Ysgol

Gall ymddygiad plant tu allan i'r ysgol ar waith ysgol, fel ar dripiâu ysgol neu chwaraeon, gael ei drin o dan y Polisi hwn fel pe bai wedi digwydd o fewn yr ysgol. (Caiff plant eu hatgoffa eu bod yn cynrychioli'r ysgol yn eu gwisg ysgol gyda'r logo ac ymddwyn felly).

Cyfrifoldeb y Staff

Mae'n bwysig i'r holl staff gynnal y neges am safon disgyblaeth yr ysgol nid drwy eu geiriau yn unig ond drwy eu gweithredoedd. Dylid hyrwyddo ymddygiad da yn gyson drwy:

- Dderbyn cyfrifoldeb am ymddygiad y disgyblion tu allan a thu mewn y dosbarth a'r adeilad.
- Dderbyn cyfrifoldeb am y disgyblion i gyd, nid rhai yn eu dosbarth yn unig
- Rannu problemau a strategaethau llwyddiannus wrth ddelio ag unigolion
- Dilyn safonau o ymddygiad cyffredin.
- Hysbysu'r Athro Dosbarth neu Bennaeth bob amser am ddigwyddiadau neu broblemau gyda phlentyn
- Hysbysu'r rhieni'n gyson drwy'r Athro Dosbarth neu'r Pennaeth

Mae gweithredoedd, geiriau ac ymddygiad y staff i gyd yn rhoi arwyddion pwysig. Maent yn siarad yn uwch nag unrhyw reol, gosb neu wobr o'r hyn yw safonau disgyblaeth a naws yr ysgol mewn gwirionedd

Cyfraniad y Disgyblion

Mae'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amser Cylch drwy'r ysgol ac hefyd mewn trafodaethau yn ystod sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCH)

Golyga hyn gall plant drafod gyda'u cyfoedion ac oedolyn. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau. Gall materion cyffredinol am ddisgyblaeth ac ymddygiad gael eu codi gan blant gyda'r Cyngor Ysgol ac felly'n cael eu dwyn i sylw'r staff a'r Corff Llywodaethol.

Partneriaeth gyda'r Rhieni

Mae cyd-weithio a phartneriaeth gyda'r rhieni yn angenrheidiol i lwyddiant y polisi hwn. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu am unrhyw gamymddwyn o du eu plant. Y pwynt cyswllt cyntaf rhwng y rhieni a'r ysgol yw Athro Dosbarth y plentyn fel arfer. Os ydy'r camymddwyn yn parhau, gwahoddir rhieni i drafod y mater gyda'r Athro Dosbarth a/neu Bennaeth. Fe allai'r Pennaeth ddymuno trefnu Cynllun Ymddygiad, Cynllun Gofal Bugeiliol gyda'r rhieni

neu strategaethau eraill. Mewn achosion mwy difrifol, cysylltir ag asiantaethau allanol am gymorth neu gyngor a threfnir cyfarfodydd amlasiantaethol yn ôl yr angen.

2. RHEOLAETH YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – CAMAU GWEITHREDU

Yn ein hysgol ni, dangoswn i blant ein bod yn gofalu cymaint amdanyn nhw i adael iddyn nhw wybod bod ymddygiad da yn cael ei gymeradwyo a'i wobrwyo ac hefyd bod ymddygiad gwael yn annerbyniol. Dysgw'n iddyn nhw fod yna oblygiadau go iawn i ymddygiad da ac annerbyniol fel ei gilydd. Gwnawn y plant yn ymwybodol o'r Safonau Ymddygiad a ddisgwylir ohonyn nhw. Yn ogystal, o fewn pob dosbarth, bydd y plant wedi cytuno ar reolau dosbarth ac yn ymwybodol o'r canlyniadau o'u torri.

(A) CYDNABYDDIAETH POSITIF A CHYMERADWYO YMDDYGIAD DA

Bydd cydnabyddiaeth positif unigol yn cynnwys:

- Canmol
- Sticeri – sêr ar ddiwedd yr wythnos yng ngwasanaeth y plant
- Cyfathrebu positif gyda rhieni, nodiadau ayyb
- Breintiau arbennig
- Dewis rhydd

Anfonir plant yn aml at y Pennaeth neu Athro Dosbarth arall fel cydnabyddiaeth o ymddygiad da neu waith da.

Canmol Ymddygiad Da

Credwn taw canmoliaeth ac anogaeth yw'r wobr mwyaf pwerus. Bydd plentyn sy'n teimlo wedi ei werthfawrogi gan oedolyn mewn cymuned o werth iddo yn tyfu mewn hunan-hyder ac yn ei awydd i lwyddo.

Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun cymeradwyo gyda chategorïau cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. I Gyfnod Allweddol 2 mae'r categorïau yn llwyddiant tu allan i ddiwrnod yr ysgol, cyrhaeddiad academaidd, llwyddiant mewn chwaraeon, llwyddiant mewn cerddoriaeth, am gwrteisi a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae yna gategorïau cyfatebol yn y Cyfnod Sylfaen. Gwobrwyr y disgyblion â ser am gyrhaeddiad unigol.

Bydd yr ysgol yn parhau i ganmol disgyblion mewn sefyllfaoedd priodol fel cydnabyddiaeth yng ngwasanaeth yr ysgol, mewn adroddiadau ysgol a llythyron at rieni. Clustnodir y gwasanaeth bob wythnos i ddathlu llwyddiannau'r plant. Yn ogystal â ser, gall plant gael eu henwi fel clod am eu gwaith, ymddygiad neu llwyddiannau mewn meysydd eraill.

B) DISGYBLAETH AM YMDDYGIAD ANNERBYNIOL

Dull Gweithredu a'r Dewis

Bydd yr ymateb addas wrth ddisgyblu ymddygiad annerbyniol yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys oed y plant dan sylw, eu hymddygiad yn y gorffennol, eu perthynas a phlant ac (yn aml) yr angen am ymateb prydlon i'r digwyddiad. Mae gan yr Athro Dosbarth a'r

Pennaeth ddewis eang ar sut i ddelio gydag unrhyw ddigwyddiad, ond (wrth sefydlu'r hyn ddigwyddodd a phenderfynu ar y canlyniadau) fyddan nhw bob amser yn ceisio bod yn deg i'r troseddwr honedig ac eraill sy'n gysylltiedig.

Rheolaeth Dosbarth

Mae'r athrawon yn gyfrifol am lunio rheolau dosbarth gyda'u plant. Bydd y rheolau yn cynnwys 3-5 rheol fydd y plant yn penderfynu'n bwysig i'w dosbarth. Arddangosir rhain yn amlwg yn y dosbarth. Adolygir nhw bob tymor.

Athro Dosbarth – Camau Gweithredu

Gall camau gweithredu ymddygiad annerbyniol (o ystyried oed a chymeriad y plentyn) gynnwys:

1. Trafodaeth gyda'r disgybl am ei ymddygiad ac amser i'w ystyried, gan gynnwys " Saib", os yn berthnasol (gweler isod)
2. Cwblhau Ffurflen Digwyddiad Ymddygiad. Bydd hwn yn cael ei ffeilio yn y llyfr digwyddiadau ar gyfer y dyfodol.
3. Ymddiheuriad llafar neu ymddiheuriad ysgrifenedig i'w gwblhau gan y plentyn a'i drosglwyddo i'r person mae'n ymddiheuo iddo.
4. Colli rhan neu'r cwbl o amser chwarae a chael tasgau i'w cyflawni yn yr amser gollwyd.
5. Colli rhan neu'r cyfan o amser aur

Os ydy'r ymatebion hyn yn ymddangos yn annigonol, dylai'r Athro Dosbarth gyfeirio'r mater i'r Pennaeth.

Saib

Os oes digwyddiad yn ystod gwerns (yn enwedig gyda phlant hŷn) fe all yr Athro Dosbarth ddewis roi "saib" i'r plentyn. Golyga hyn anfon y plentyn i ddosbarth arall ble fydd yn eistedd oddi wrth blant eraill er mwyn cael amser i feddwl, ystyried ei sefyllfa neu dawelu. Pan fydd yn teimlo'n barod, gall ddychwelyd i'w ddosbarth ei hun lle mae'n ddisgwyliedig iddo ymddiheuro i'r Athro Dosbarth, ac i blentyn arall, os yn berthnasol.

Pennaeth – Camau Gweithredu

Mewn achos o ymddygiad annerbyniol parhaol neu ddifriol, bydd y Pennaeth yn delio a'r mater. Fe all Athro Dosbarth gyfeirio'r plentyn at y Pennaeth ar unrhyw adeg. Dylai plant gael eu hanfon at y Pennaeth yn unig pan fo'r strategaethau a amlinellir uchod wedi eu trio ond nid yw'r ymddygiad yn gwella neu fod y digwyddiad mor ddifrifol i warantu sylw a gweithredu'r Pennaeth yn syth.

ae gan y Pennaeth ddewis eang o gamau addas i ddewis ohonynt. Esiamlau o gamau gweithredu'r Pennaeth fyddai:

1. Cyfarfod a'r Athro Dosbarth a'r plentyn i drafod y problemau a'r ymddygiad hyd yma.

2. Rhoi amser i'r plentyn ystyried ei ymddygiad a thrafod unrhyw achlysuron y mae'r ysgol yn rhan ohono.
3. Llythyr at y rhieni yn esbonio'r sefyllfa ac yn rhybudd oddi wrth y Pennaeth i'r plentyn am y camau nesaf os nad ydy'r ymddygiad yn gwella.
4. Llythyr a chyfarfod gyda'r rhieni yn yr ysgol i drafod sefyllfa'u plentyn a chytuno ar y ffordd ymlaen.
5. Cysylltu ag asiantaethau allanol a llunio Cynllun Rheoli Ymddygiad Unigol/Gofal Bugeiliol.
6. Gwaharddiad Cyfnod Penodol neu Waharddiad Parhaol.

Colli Breintiau

Gall yr Athro Dosbarth neu'r Pennaeth benderfynu fod y plentyn yn colli rhan neu'r cyfan o amser chwarae fel canlyniad i ymddygiad annerbyniol a gosod tasgau yn ystod yr amser a gollwyd.

Gall y Pennaeth benderfynu y dylai plentyn gollu breintiau eraill o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol. Esiampl o hyn fyddai gwrthod caniatad i blentyn fynd ar daith ysgol neu i glwb ysgol ar ol iddo fod yn ymosodol ar y maes chwarae, neu ofyn i'r plentyn (gyda chytundeb y rhieni) i fynd adre am ginio wedi ymddygiad gwael yn ystod amser cinio.

Gwaharddiadau

Gwaharddiad penodol neu barhaol yw'r canlyniad eithaf i ymddygiad gwael ac fel arfer (er nid bob amser) rhoddir pan nad oes strategaethau eraill ar ol. Disgwylir iddo fod yn brin yn ein hysgol. Wrth ystyried gwaharddiad, bydd y Pennaeth yn dilyn canllawiau Llywodaeth Cymru.

Mae plentyn mewn perygl o gael ei wahardd o'n hysgol ni am gamymddwyn difrifol wrth i'r Pennaeth gredu fod cadw'r plentyn yn yr ysgol yn niweidio addysg a lles y plentyn neu eraill yn yr ysgol.

Fe allai plentyn gael ei wahardd (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) am ymddygiad fel yr esiamplau canlynol:

- Gweithred o drais neu ymddygiad ymosodol droeon tuag at ei gyfoedion a/neu staff
- Bwlio bwriadol
- Defnydd parhaus o iaith anwedus / cam-drin geiriol
- Ymddygiad rhywiolledig anaddas
- Aflonyddu geiriol parhaus neu aflonyddu oherwydd hil, lliw, cefndir ethnig neu anabled
- Gadael ysgol heb ganiatad
- Cyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant
- Ymddygiad sy'n tarfu'n gyson yn yr ystafell ddosbarth neu yn ystod gwersi yn y neuadd neu yn y maes chwarae
- Diystyru cyfarwyddiadau gan greu perygl i eraill

Bydd gwaharddiad penodol fel arfer yn 1-5 diwrnod yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a chofnod ymddygiad blaenorol y plentyn. Gall plentyn gael ei wahardd yn barhaol am un achos difriol o gamymddwyn hyd yn oed os ydy ei gofnod yn dda a does yna ddim gwaharddiadau penodol blaenorol. Esiamplau o ymddygiad annerbyniol “ un tro” sy’n arwain at y fath weithred lem fyddai trais difrifol, cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon yn yr ysgol neu fygwth defnyddio arf.

Anghenion Arbennig ac Anabledd

Bydd yr Athro Dosbarth neu'r Pennaeth yn ystyried unrhyw anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol plentyn mewn camau disgyblu.

Bwriad yr ysgol yw i blant ag anhawster ymddygiad sylweddol gael eu hystyried ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gyda Chynllun Dysgu Unigol (CDU) a/neu Gynllun Cefnogaeth Bugeiliol (CCB). Bydd gweithredu unrhyw CDU neu CCB yn cael ei fonitro gan y Cyd-lynnydd Anghenion Arbennig (SENCO) a'r Athro Dosbarth. Bydd staff eraill sy'n gysylltiedig (Cynorthwyr Dysgu, Arolygwyr Cinio ayyb) yn cael eu hysbysu o'r targedau a osodwyd . Os nad ydy'r ymddygiad yn gwella, ystyrir symud ymlaen i Weithredu Ysgol Ychwanegol a chysylltu ag asiantaethau allanol.

3. YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – SEFYLLFAOEDD PENODOL

Maes Chwarae

Rheolau'r maes chwarae ydy:

1. Rydym yn dangos parch at bobl, eiddo a'r amgylchedd
2. Rydym yn gofalu am ein gilydd a chwarae yn ddiogel
3. Rydym yn gwrtais, caredig a chyfeillgar
4. Rydym yn ymddiheuro am frifo neu fwrw mewn i rywun yn ddamweiniol
5. Rydym yn dilyn cyfarwyddiadau'n syth
6. Rydym yn mynd i'n llinellau yn ol y disgwyl, cyn gynted ag y clywn y gloch.

Gwobrau Tebygol

- Defnydd o offer maes chwarae

Canlyniadau Tebygol Ymddygiad Annerbyniol

- Saib ar y maes chwarae
- Colli amser chwarae (eistedd/gweithio yn yr adeilad)

Amser Chwarae Gwlyb /Chwarae Tu Fewn

Bydd achlysuron pan fydd plant yn methu mynd allan i'r maes chwarae oherwydd y tywydd.

Yn ystod y cyfnodau hyn:

1. Rhaid i blant aros yn eu dosbarth eu hunain neu yn y neuadd.
2. Rhaid i blant beidio a rhedeg o gwmpas neu gamymddwyn
3. Ni ddylai'r plant ddefnyddio siswrn heb oruchwyliaeth
4. Bydd athrawon dosbarth yn darparu gemau tawel, papur scrap a chreionau ayyb, comics/llyfrau i'w darllen
5. Bydd rheolau'r dosbarth yn weithredol.
6. Bydd un athro ar ddyletswydd rhwng dau ddosbarth.

Mynd i mewn ac allan o'r neuadd – Gwasanaeth

Disgwylir i blant:

- Dod i mewn ac allan yn dawel
- Wrando a pheidio a thynnu sylw eraill.
- Roi llaw lan i ateb cwestiynau
- Eistedd ar y llawr mewn dull synhwyrol a derbyniol

Gwobrau Tebygol:

- Clod, naill ai i unigolyn, fel dosbarth neu ysgol gyfan
- Ser Athro Dosbarth.
- Sticeri'r Pennaeth

Canlyniadau Tebygol Ymddygiad Annerbyniol

- Dychwelyd i'r neuadd amser chwarae neu ymarfer dod i mewn ac allan o'r neuadd fel dosbarth cyfan
- Cynyddu'r amser am ymddygiad annerbyniol parhaol

Clybiau Ar-ôl Ysgol

Rydym yn annog plant i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol, ond fe allent gael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o glwb am gamymddwyn yn y clwb neu yn yr ysgol yn gyffredinol.

Addysg Gorfforol / Nofio

Disgwylir i'r plant weithio'n synhwyrol yn ystod gwersi. Rhaid iddyn nhw wrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon a'u gweithredu. Rhaid cadw at y rheolau diogelwch bob amser. Os ydy plentyn ar unrhyw adeg yn methu ag ymddwyn yn gyfrifol, fe allai gael ei wahardd o Ymarfer Corff neu wers nofio.

Teithiau Ysgol

Cyn mynd ar daith, bydd athrawon dosbarth yn trafod gyda'u dosbarthiadau yr hyn a ddisgwylid ohonynt o ran ymddygiad a threfniadaeth. Fe fyddan nhw hefyd yn atgoffa'r plant

i fod yn gwrtais ac i hyrwyddo enw da'r ysgol yn y gymuned. Mewn achos o ymddygiad annerbyniol neu ddiogelwch y plentyn yn cael ei gyfaddawdu, y canlyniadau tebygol fyddai:

1. Hysbysu'r rhieni
2. Llythyr o ymddiheuriad i'r lleoliad wedi'i ysgrifennu gan y plentyn
3. Gwahardd y plentyn i fynd ar deithiau pellach yn y dyfodol nes i'w ymddygiad wella

Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso'r Polisi hwn ac adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethol yn flynyddol.

1. AIMS AND STANDARDS

At Ysgol Bancyfelin, Llangain and Llansteffan discipline is based on a behaviour strategy which promotes positive attitudes towards behaviour and is founded on praise and rewards. Children make choices about their own behaviour based on rules, rewards and consequences. Good behaviour is a vital part of school life as it permits and promotes learning and successful interpersonal relationships. Unacceptable behaviour and breaches of discipline should not be allowed to interfere with the right of other children to learn and progress. Every member of staff, every pupil and every parent should be made aware of, be involved in and be supportive of the School Behaviour and Discipline Policy in order for it to succeed. The help and support of parents is essential. All members of staff have a responsibility to maintain this policy at all times.

OUR AIMS:

1. To make school interesting, enjoyable, safe, secure and caring environment for children's learning.
2. To provide structure in which children, adults and parents know what is expected of them and what strategies are provided to reward good behaviour and to deal with behaviour problems.
3. To encourage all children to care and look after each other remembering the key elements of following the star through their school journey.

We will work towards achieving these aims by:

1. Developing and fostering mutual support between adults and children, children and children and adults and adults.
2. Building up self-esteem and self worth by praising and rewarding good behaviour. and by developing positive attitudes.
3. Providing effective discipline for effective learning.
4. Providing strategies to promote self-control and expecting children to take responsibility for their own actions and try to see the consequences of their actions.
5. Providing help and support where it is needed for any child who finds difficulty in managing their own behaviour.
6. Taking account of any disabilities of children or adults in the school.

Standards of Behaviour expected:

Children are expected:

- to show respect towards each other, staff and visitors
- to respect each other's property and take care of the school building and equipment
- to be well-behaved and attentive in class
- to walk (not run) when moving around the school
- to avoid violence and retaliation
- not to use bad or abusive language
- not to bring into school sharp or dangerous instruments, electrical equipment, jewellery or toys

A departure from these standards of behaviour may be dealt with under this Policy as a breach of discipline.

Bullying

Bullying is a serious breach of the above Standards of Behaviour and is a disciplinary offence. The school attaches particular importance to identifying and preventing bullying at school, to dealing with it effectively if it occurs and to educating children to a zero tolerance of it. The School therefore has a separate School Anti-Bullying Policy covering these issues.

Behaviour outside the School Context

Childrens' behaviour outside school on school business, for example on school trips or sports fixtures, may be dealt with under this Policy as if it had taken place in school. (Children will be reminded that while wearing school uniform with school logo they are representing the school and should behave accordingly).

Staff Responsibility

It is important that all staff maintain the schools discipline message not only by what they say but also by what they do. Good behaviour and school discipline should be actively promoted by:-

- Accepting responsibility for pupil behaviour outside as well as inside the classroom and building.
- Accepting responsibility for all pupils, not just those in their class.
- Sharing problems and successful strategies for dealing with individuals.
- Pursuing common standards of discipline.
- Always informing the Class or Head teacher of incidents or problems with a child.
- The Class Teacher or Head Teacher keeping parents informed.

All staff actions, words and behaviour send out important signals. They speak louder than any rules, sanctions or rewards about what standards of discipline really are and what the ethos of the school is all about.

Pupil Participation

Pupils have opportunities to take part in Circle time throughout the school and also discussions during Personal and Social Education sessions ("PSE"). This means that children are able to discuss issues with their peers and an adult. It also gives the children opportunities to talk about their feelings.

General issues of discipline and behaviour can be raised by children with the School Council and are drawn to the attention of staff and the Governing Body.

Parental Partnership

Co-operation and partnership with parents is essential for the success of this policy. All parents will be kept informed of any unacceptable behaviour on the part of their child. The first point of contact between parents and school should normally be the child's Class teacher. If unacceptable behaviour continues, parents will be invited to discuss issues with the Class Teacher and / or Head Teacher. The Head Teacher may wish to put in place or agree with parents a Behaviour Plan, Pastoral Support Plan or other strategies. In more

serious cases, outside agencies may be contacted for support or advice and multi-agency meetings may be arranged as necessary.

2. MANAGEMENT OF BEHAVIOUR AND DISCIPLINE - CONSEQUENCES

At our school, we show children that we care enough to let them know not only good behaviour is approved and rewarded, but also that other behaviour is unacceptable. We teach them that both good and unacceptable behaviour carries with it very real consequences. We make children aware of the Standards of Behaviour expected of them. In addition, within each class, children will have agreed classroom rules and will be aware of the consequences if they break them.

(A) POSITIVE RECOGNITION AND REINFORCEMENT OF GOOD BEHAVIOUR

Individual Positive recognition will include:

- Praise
- Stickers – stars at the end of the week during Children's Assembly
- Positive communication with parents, notes etc
- Special privileges
- Free choice

Children are often sent to the Head Teacher or another Class Teacher in recognition of good behaviour or good work.

Praising Good Behaviour

We believe praise and encouragement to be the most powerful of all rewards. A child who feels valued by an adult in the community which they value will grow in self-confidence and in their will to achieve.

The School operates a rewards scheme with categories of achievement at Foundation Phase and Key Stage 2. For Key Stage 2 these categories are achievement outside the school day, academic achievement, sporting achievement, musical achievement, for politeness and manners and use of Welsh. Foundation Phase pupils have equivalent categories. Pupils are awarded stars for individual achievements.

The School will continue to commend pupils in appropriate circumstances by such means as acknowledgement in School Assembly, use of School reports and letters to parents. Friday's assembly each week is devoted to celebrating the childrens' achievements. In addition to the stars, children may also be identified for commendation for their work, behaviour or achievements in other areas.

(B) DISCIPLINE FOR UNACCEPTABLE BEHAVIOUR

Procedure and Discretion

The appropriate disciplinary response to unacceptable behaviour will depend on many factors including the age of the children involved, past behaviour, relationships between children and (often) the need for a prompt response to the incident. The Class Teachers and the Head Teacher therefore have wide discretion as to how to deal with any particular incident, but (both in establishing what happened and in deciding on consequences) they will always try to be fair both to the apparent offender and any others involved.

Class Room Management

Teachers are responsible for drawing up classroom rules with their children. These rules will consist of 3 – 5 rules which children have decided are important in their classroom. These will be displayed prominently in the classroom. They will be reviewed each term.

Class Teacher – Consequences

Appropriate consequences of unacceptable behaviour (taking account of the age and character of the child) may be as follows:

1. Discussion with child about behaviour and time to reflect on it; including “Time Out” if appropriate (see below).
2. Completion of a Behaviour Incident Form. This will be filed for future reference in the incident book.
3. Verbal apology or completion of a written apology which the child will then hand to the person to whom they are apologising.
4. Losing all or part of a playtime and being set tasks in the time lost.
5. Losing all or part of golden time.

If these responses appear inadequate, the Class Teacher should refer the matter to the Head Teacher.

Time Out

If an incident happens during a lesson (particularly with older children) the Class teacher may decide that a child needs to be given “Time Out”. This will involve the child being sent to another class where they will sit away from other children so that they have time to think, reflect or calm down. When they feel ready, they return to their own class where they are expected to apologise to their Class Teacher, and to another child if appropriate.

Head Teacher – Consequences

In the event of significant or persistent unacceptable behaviour, the Head Teacher will deal with the matter. A Class teacher may decide to refer a child to the Head Teacher at any stage. Children should normally only be sent to the Head Teacher when strategies outlined above have been tried but behaviour is not improving or when the matter is serious enough to warrant the Head Teachers immediate attention.

The Head Teacher has wide discretion in deciding on appropriate action. Examples of the consequences of a referral to the Head Teacher are as follows:

1. Meeting with Class Teacher and child to discuss the problems with behaviour to date.
2. Time for the child to reflect on behaviour and to discuss with the Head Teacher any situations with which the school could become involved.
3. Letter to parents explaining the situation and a warning from the Head Teacher to the child about the next stage of consequences if behaviour does not improve.
4. Letter to and meeting with parents in school to discuss the situation with their child and agree on a way forward.

5. Involve outside agencies and set up an Individual Behaviour Management / Pastoral Support Plan.
6. Fixed term or Permanent Exclusion.

Loss of Privileges

The Class Teacher or Head Teacher may decide that a child should lose the whole or part of playtime as a consequence of unacceptable behaviour and be set some tasks during time lost.

The Head Teacher may decide that a child should lose other privileges as a consequence of unacceptable behaviour. By way of example, a child may be refused permission to go on a school trip or to a school club after being aggressive in the playground, or a child may be required (with parents agreement) to go home for dinner as a consequence of bad behaviour during dinner breaks.

Exclusions

Fixed or permanent exclusion is an extreme consequence of bad behaviour and is usually (although not always) imposed when other strategies have been exhausted. It is expected to be rare at our school. In considering exclusion, the Head Teacher will follow the Welsh Assembly Government Guidance.

A child is at significant risk of exclusion from our school for serious misconduct causing the Head Teacher to believe that allowing the child to remain in school would seriously harm the education or welfare of the child or others in the school. The following examples of behaviour for which (depending on the circumstances) a child might be excluded:

- An act of violence or repeated aggressive behaviour towards peer groups and / or staff.
- Calculated bullying.
- Persistent use of bad language / verbal abuse.
- Inappropriate sexualised behaviour.
- Repeated verbal or other harassment because of race, colour, ethnic origin or disability.
- Leaving school without permission.
- Possession of illegal drugs.
- Repeated disruptive behaviour in the classroom or during lessons in the hall or in the playground.
- Disregard for instructions which cause danger to others.

Fixed term exclusions will normally be for 1 – 5 days depending on the seriousness of the incident and the child's previous disciplinary record. A child may be permanently excluded for one very serious breach of discipline even if their record is good and there have been no previous fixed-term exclusions. Examples of "one-off" unacceptable behaviour justifying such strong action include serious violence, supplying illegal drugs at school or threatening the use of a weapon.

Special Needs and Disability

The Class Teacher or Head Teacher will take account of any recognised disability or additional learning needs of a child when disciplinary action is taken.

The school intends that all children with significant behavioural difficulties will be considered for additional learning needs with an Individual Education Plan (IEP) and / or Pastoral Support Plan (PSP). Implementation of any IEP or PSP will be monitored by the Special Educational Needs Coordinator (SENCO) and the Class Teacher. All other staff involved (Learning Support Assistants, Dinner Supervisors etc) will be informed of the targets set. If behaviour does not improve, consideration will be given to progressing to School Action Plus and involving outside agencies.

3. BEHAVIOUR AND DISCIPLINE – SPECIFIC SITUATIONS

Playground

The playground rules are:

1. We show respect for people, property and the environment.
2. We look after each other and play safely.
3. We are always polite, kind and friendly.
4. We say sorry if we hurt or bump into anyone by accident.
5. We follow instructions straight away.
6. We line up as we are expected to, as soon as we hear the bell.

Typical Rewards

- Use of playground equipment

Typical Consequences for Unacceptable Behaviour

- Time out on playground
- Miss a playtime (sit/work in building)

Wet Playtimes/Indoor Play

There will be times when children are unable to go onto the playground because of the weather. During these times then:

1. Children must stay in their own classroom or in the hall
2. They must not run around or display unacceptable behaviour.
3. They should not use scissors unsupervised.
4. Class teachers will make available quiet games, scrap paper and crayons etc, comics/books to read.
5. Classroom rules still apply.

6. There is one adult on duty between two classrooms.

Entering and Leaving the Hall – Assembly

Children are expected to:

- Come in and go out quietly.
- Listen and not distract others.
- Put up their hands to answer questions.
- Sit on the floor in a sensible and acceptable way.

Typical Rewards:

- Praise, either individually, as a class or whole school.
- Class Teacher stars.
- Head Teacher stickers

Typical Consequences for unacceptable Behaviour

- Return to hall during playtimes and practice entering or leaving the hall as a whole class.
- Time increased for persistent unacceptable behaviour.

After-School Clubs We encourage children to take part in our after-school clubs, but they may be temporarily or permanently banned from a club for unacceptable behaviour at the club or in school generally.

Physical Education / Swimming

All children are expected to work sensibly during these lessons. They must listen carefully to teachers' instructions and act upon them. All safety rules must be adhered to at all times. If at any time a child cannot act responsibly, they may be excluded from PE or swimming lesson.

School Trips

Before the trip, class teachers will discuss with their classes what is expected of them in terms of behaviour and organisation. They will also remind children to be polite and to promote the good name of the school in the community. Where behaviour is not acceptable or causes concern that a child's safety would be compromised on a school trip, then typical consequences would be:

1. Parents will be notified.
2. A letter of apology to the venue or leader to be written by the child.
3. The child may not be allowed to go on further trips in the future until behaviour improves.

Monitoring, Evaluation and Review

The Head Teacher is responsible for monitoring and evaluating this Policy and reporting on it to the Governing Body annually.

